cymdeithas yr iaith

# Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod

## Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ond ar hyn o bryd mae'r gyfundrefn addysg yn amddifadu 80% o bobl ifanc o'r gallu i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn hyderus erbyn diwedd eu cyfnod mewn addysg statudol.

Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd o sicrhau bod disgyblion yn gadael yr ysgol yn medru'r Gymraeg yn hyderus felly fe gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb llynedd, sy'n gosod nod statudol bod pob plentyn yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050.

Er mwyn i hynny ddigwydd byddai angen gweithredu yn genedlaethol ac yn lleol. Byddai angen i'r Llywodraeth fabwysiadu'r nod hynny a gosod targedau i Awdurdodau Lleol, a byddai'n rhaid i Awdurdodau Lleol greu cynllun i gyrraedd y targedau hynny a rhoi pob ysgol ar lwybr at fod yn ysgol sy'n dysgu trwy'r Gymraeg.

Mae rhan gyntaf y gwaith ystadegol hwn yn dangos y twf fydd ei angen fesul sir er mwyn cyrraedd y nod bod pob plentyn yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, sydd yn gosod nod bod 50% o blant Cymru yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050. Mae'r ystadegau yn ail ran y gwaith hwn yn dangos y twf fydd ei angen fesul sir i gyrraedd y nod bod hanner disgyblion Cymru yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050.
Er yn gam ymlaen byddai hynny'n annigonol gan y byddai'n parhau i amddifadu hanner disgyblion Cymru o allu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

Fe wnaeth y Gymdeithas waith ystadegol tebyg i'r gwaith hwn yn 2017, Targedau Addysg Lleol - Cyrraedd y Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Mae'n dangos y twf fyddai ei angen er mwyn cyrraedd targed y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'n dangos y byddai angen i 39.7% o ddisgyblion saith oed fod yn derbyn addysg Gymraeg yn genedlaethol erbyn 2025.
Yn 2022/23, gyda dwy flynedd i fynd, dim ond 23.5% o blant cynradd oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg[1].

Mae'r gwaith yma yn ehangu ar y gwaith ystadegol hynny, ac yn tynnu sylw at y diffyg dilyniant sylweddol wrth i blant symud o'r sector cynradd i'r uwchradd, sydd i'w weld ar ei fwyaf amlwg yn rhai o siroedd y gorllewin.

Yr hyn sy'n glir felly yw bod angen i Lywodraeth Cymru greu cynllun gweithredu, cyllido'r cynnydd a gosod targedau ar gyfer Awdurdod Lleol, waeth beth fo'r nod.

### Y gweithlu addysg

Y brif her wrth sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg Gymraeg yw cynyddu'r nifer o athrawon, athrawon cynorthwyol a phob aelod o staff sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth a thu hwnt. Mae angen cynllun ar gyfer hynny.

Rydyn ni wedi galw yn y gorffennol am fuddsoddiad o £20 miliwn bob blwyddyn ar gyfer hyfforddi athrawon, athrawon cynorthwyol, staff ategol a staff sy'n cefnogi ysgolion; a chynllun strategol 5-10 mlynedd ar gyfer hyfforddi staff.

---

[1] Data 2022/23 gan StatsWales - https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/classesinprimarymiddlesecondaryschools-by-laregion-welshcategory

Mae cyfanswm o 26,445 o athrawon a 15,660 o athrawon cynorthwyol (12,850 ohonynt mewn ysgolion cynradd) gyda ni yng Nghymru a thua thraean ohonynt yn medru'r Gymraeg er nad ydyn nhw i gyd yn dysgu trwy'r Gymraeg ar hyn o bryd. Byddai rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i'r athrawon hynny yn rhoi hyder iddyn nhw ddysgu trwy'r Gymraeg.

I gyd-fynd â hynny mae angen i'r cynllun hyfforddiant sabothol i athrawon gynnig amrywiaeth o gyfleoedd, cefnogaeth ddilynol a gwerthusiadau.

Mae angen cynnwys blwyddyn ychwanegol i hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer dysgu a gloywi'r Gymraeg er mwyn i athrawon newydd allu dysgu trwy'r Gymraeg.

Ar ben hynny mae angen targedau statudol i bob awdurdod lleol ar gyfer nifer y gweithlu addysg sy'n siarad Cymraeg.
Mae mwy o wybodaeth am ein strategaeth ar gyfer datblygu gallu'r gweithlu addysg ar ein gwefan[2].

## Methodoleg

I gyrraedd y nod bod pob disgybl mewn ysgolion uwchradd (hyd at 16 oed) yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050 byddai'n rhaid i ysgolion cynradd fod wedi cyrraedd nod o'r fath bum mlynedd ynghynt, sef wedi 20 mlynedd, neu yn 2045.

Mae'r ffigyrau fesul sir yn dangos y ffigurau perthnasol am y twf cronnol y byddai ei angen ar gyfer gwireddu'r ddwy sefyllfa.

Ar sail hynny, penderfynwyd cyfrifo'r twf angenrheidiol mewn addysg uwchradd ar sail llinell amser bum mlynedd ar ôl y ddarpariaeth addysg gynradd.

I wneud hyn, bydd y canrannau'n aros yr un fath. Fodd bynnag, mae angen amcangyfrif ar wahân o'r niferoedd gan ein bod yn sôn am ystod oedran o bum mlynedd i ddisgyblion uwchradd, 11-15 oed, ac ystod oedran o wyth mlynedd mewn ysgolion cynradd, 3-10 oed.

Nid yw'r union niferoedd ym mhob oedran unigol ym mhob sector ar gael yn rhwydd, ond mae modd cyfrifo'n fras ar sail y canrannau o blant ysgol mewn gwahanol siroedd sydd yn yr oedrannau hyn. Gan mai trafod rhagamcanion dangosol sydd, does dim ffigurau 'cywir' nac 'anghywir', ond mae'r amcangyfrifon bras yn dangos graddfa'r twf y bydd ei angen.

Diffinnir y categori dwyieithog AB fel ysgolion uwchradd lle mae pob disgybl yn astudio 80% o bynciau trwy'r Gymraeg yn unig. Yn genedlaethol, canran fach o blant sydd mewn ysgolion o'r fath ond gan fod pawb yn derbyn addysg Gymraeg yn yr ysgolion hyn, ychwanegwyd hwy at y categori cyfrwng Cymraeg, sydd o'u cyfuno yn ffurfio canran o 13%.

Mae llawer llai o blant mewn ysgolion canol (3-16 neu 3-18) – tua 26,000 o gymharu â 175,000 mewn ysgolion uwchradd – mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn llawer uwch ynddynt. Mae mwy nag un sir hefyd lle mae'r unig ddarpariaeth uwchradd Cymraeg yn y sir mewn ysgolion canol.

Mae'n bwysig nodi na all unrhyw ragamcanion mewn astudiaeth fel hon, waeth pa mor fanwl y cawsant eu cyfrifo, ffurfio cynllun ystyrlon ynddynt eu hunain ar gyfer addysg Gymraeg. Byddai'n rhaid i awdurdodau addysg weithredu'n ymarferol drwy gynllunio fesul blwyddyn oedran a fesul ysgol unigol, yn hytrach nag ar sail niferoedd disgyblion yn unig.

Diben y rhagamcanion hyn yw gweithredu fel canllaw i fesur a dangos y math o dwf sydd ei angen.

---

[2] Strategaeth Datblygu Gallu'r Gweithlu Addysg - https://cymdeithas.cymru/datblygu_gweithlu

Mae'r holl niferoedd a grybwyllir yn yr astudiaeth hon yn seiliedig ar y boblogaeth ysgol bresennol yng Nghymru. Mae'n anochel y bydd niferoedd disgyblion ysgol mewn rhai siroedd yn codi ac yn disgyn mewn siroedd eraill ond byddai ceisio rhagamcanu'n gywir ar gyfer pob man yn dasg ddiddiwedd, a'r pellaf yr edrychwn i'r dyfodol, mwyaf ansicr fydd unrhyw ragamcanion.

Rhaid i unrhyw niferoedd felly cael eu hystyried fel rhifau dangosol yn unig ond mae'r canrannau ar sail mwy cadarn, ac yn debygol o aros yn ddigyfnewid waeth beth fo union niferoedd y disgyblion.

**Siroedd y gorllewin**

Wrth osod targedau fesul sir bydd angen edrych ar y pedair sir orllewinol – Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr – fel achosion arbennig gan y byddai modd sicrhau addysg Gymraeg i 100% o ddisgyblion ynddynt yn llawer cynt na gweddill Cymru.
Mae'n werth nodi hefyd mai yn ysgolion y siroedd hyn mae dros 40% o'r holl ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Er hynny, mae'n ymddangos bod gwahaniaeth sylweddol – i wahanol raddau – yn y pedair sir rhwng y ddarpariaeth addysg gynradd ac addysg uwchradd.

Yng Ngwynedd y mae'r nifer mwyaf o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg, ac mae'r ganran eisoes o fewn trwch blewyn i 100 y cant ymhlith plant ysgol gynradd. Mae'r canrannau ychydig yn is ym Môn a Cheredigion (a'r niferoedd yn llawer llai oherwydd eu bod yn siroedd llai o ran poblogaeth). Byddai gweithredu'r math o gyfradd twf mewn addysg Gymraeg a fyddai ei angen yng ngweddill Cymru yn fwy na digon i alluogi'r tair sir hyn i gyrraedd y nod bod 100% o blant yn derbyn addysg Gymraeg dros y 10 mlynedd nesaf.


Er bod y ganran o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn llawer is yn Sir Gâr nag yn y tair sir arall, dyma'r sir sydd yn ail o ran nifer y plant mewn addysg gynradd Gymraeg yng Nghymru. Er bod ganddi ffordd bellach i fynd na'r tair sir arall at gyrraedd 100 y cant, byddai'n gallu cyrraedd targed o'r fath ymhell o flaen gweddill Cymru – hyd yn oed ar gyfradd twf mwy cymedrol.

Am y rhesymau hyn, bydd angen cynlluniau twf unigryw ac ar wahân i'r pedair sir hyn, a hynny ar sail ymchwil pellach.


## Cyrraedd y nod bod 100% o blant mewn addysg Gymraeg

Mae’r graffiau isod yn dangos, fesul sir, faint o gynnydd sydd ei angen bob pum mlynedd er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae pob disgybl yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050.

### Gwynedd





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 8815 | 8790 | 8790 | 8790 | 8790 | 8790 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | -25 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 5594 | 6150 | 6150 | 6150 | 6150 | 6150 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 98.2 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 82.9 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

### Conwy





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 2002 | 2896 | 4188 | 6057 | 8761 | 8761 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 894 | 1292 | 1869 | 2704 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 530 | 1274 | 1843 | 2665 | 3855 | 5575 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 744 | 569 | 822 | 1190 | 1721 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 22.9 | 33.1 | 47.9 | 69.3 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 9.5 | 22.9 | 33.1 | 47.9 | 69.3 | 100 |

### Sir Ddinbych





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 2131 | 2968 | 4134 | 5757 | 8018 | 8018 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 837 | 1166 | 1623 | 2261 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 925 | 1481 | 2063 | 2873 | 4001 | 5572 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 556 | 582 | 810 | 1128 | 1571 |




| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 26.5 | 36.9 | 51.4 | 71.6 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 16.5 | 26.5 | 36.9 | 51.4 | 71.6 | 100 |


## Sir y Fflint

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir y Fflint 2025-2050, yn ôl niferoedd




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 891 | 1752 | 3445 | 6774 | 13319 | 13319 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 861 | 1693 | 3329 | 6545 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 514 | 575 | 1131 | 2223 | 4371 | 8595 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 61 | 556 | 1093 | 2148 | 4224 |


Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir y Fflint 2025-2050, yn ôl canrannau




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 6.7 | 13.2 | 25.9 | 50.9 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 6.0 | 6.7 | 13.2 | 25.9 | 50.9 | 100 |


## Wrecsam

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir Wrecsam 2025-2050, yn ôl niferoedd




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 1543 | 2581 | 4318 | 7225 | 12086 | 12086 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1038 | 1737 | 2906 | 4862 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 835 | 835 | 1397 | 2337 | 3910 | 6541 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 562 | 940 | 1573 | 2631 |


Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir Wrecsam 2025-2050, yn ôl canrannau




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 12.8 | 21.4 | 35.8 | 59.9 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 12.8 | 12.8 | 21.4 | 35.8 | 59.9 | 100 |


## Powys

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg Powys 2025-2050, yn ôl niferoedd




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 1126 | 1893 | 3183 | 5351 | 8997 | 8997 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 767 | 1290 | 2168 | 3646 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 0 | 657 | 1105 | 1857 | 3122 | 5249 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 657 | 448 | 753 | 1265 | 2127 |


Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg Powys 2025-2050, yn ôl canrannau




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 12.5 | 21.0 | 35.3 | 59.4 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 12.5 | 21.0 | 35.3 | 59.4 | 100 |


## Ceredigion

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg Ceredigion 2025-2050, yn ôl niferoedd




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 2976 | 3983 | 3983 | 3983 | 3983 | 3983 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1007 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 2386 | 2687 | 3596 | 3596 | 3596 | 3596 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 301 | 909 | 0 | 0 | 0 |


Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg Ceredigion2025-2050, yn ôl canrannau




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 74.2 | 99 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 65.9 | 74.2 | 99 | 100 | 100 | 100 |


## Sir Benfro

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir Benfro 2025-2050, yn ôl niferoedd




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 1607 | 2511 | 3925 | 6133 | 9585 | 9585 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 904 | 1413 | 2209 | 3452 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 1050 | 1050 | 1641 | 2564 | 4008 | 6263 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 591 | 923 | 1443 | 2255 |


Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir Benfro 2025-2050, yn ôl canrannau




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 16.8 | 26.3 | 41.0 | 64.1 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 16.8 | 16.8 | 26.3 | 41.0 | 64.1 | 100 |


## Sir Gâr

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir Gâr 2025-2050, yn ôl niferoedd





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 7452 | 10748 | 15502 | 15502 | 15502 | 15502 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 3296 | 4754 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 2899 | 4434 | 6782 | 10372 | 10372 | 10372 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 1535 | 2348 | 3591 | 0 | 0 |

Llwybr cynnydd addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yn Sir Gâr 2025-2050, yn ôl canrannau





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 47.9 | 69.1 | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 28.0 | 42.8 | 65.5 | 100.0 | 100.0 | 100 |

## Abertawe





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 3081 | 5007 | 8138 | 13226 | 21494 | 21494 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1926 | 3131 | 5088 | 8269 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 1833 | 1906 | 3098 | 5034 | 8182 | 13297 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 73 | 1192 | 1937 | 3147 | 5115 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 14.4 | 23.4 | 38.0 | 61.8 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 13.8 | 14.4 | 23.4 | 38.0 | 61.8 | 100 |

## Castell-Nedd Port Talbot





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 1984 | 3075 | 4766 | 7387 | 11450 | 11450 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1091 | 1691 | 2621 | 4063 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 0 | 786 | 1218 | 1888 | 2927 | 4536 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 786 | 432 | 670 | 1038 | 1610 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 17.3 | 26.8 | 41.6 | 64.4 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 17.3 | 26.8 | 41.6 | 64.4 | 100 |

## Caerffili





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 2772 | 4308 | 6696 | 10407 | 16175 | 16175 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1536 | 2388 | 3711 | 5768 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 1651 | 1778 | 2763 | 4295 | 6675 | 10375 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 985 | 1532 | 2380 | 3699 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 17.2 | 26.7 | 41.5 | 64.6 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 16.0 | 17.2 | 26.7 | 41.5 | 64.6 | 100 |

## Blaenau Gwent





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 287 | 582 | 1180 | 2392 | 4851 | 4851 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 295 | 598 | 1212 | 2458 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 0 | 74 | 150 | 304 | 617 | 1251 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 76 | 154 | 313 | 634 |





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 5.9 | 12.0 | 24.3 | 49.2 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 5.9 | 12.0 | 24.3 | 49.2 | 100 |

## Torfaen





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 915 | 1590 | 2764 | 4804 | 8350 | 8350 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 675 | 1174 | 2040 | 3546 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 743 | 743 | 1236 | 2057 | 3423 | 5695 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 493 | 821 | 1366 | 2272 |





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 11.0 | 19.1 | 33.2 | 57.8 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 13.0 | 13.0 | 21.6 | 36.0 | 59.9 | 100 |

## Sir Fynwy





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 407 | 819 | 1647 | 3312 | 6661 | 6661 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 412 | 828 | 1665 | 3349 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 0 | 252 | 507 | 1019 | 2051 | 4124 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 255 | 513 | 1031 | 2074 |





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 6.1 | 12.3 | 24.7 | 49.6 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 6.1 | 12.3 | 24.7 | 49.6 | 100 |

## Casnewydd





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 812 | 1711 | 3604 | 7592 | 15994 | 15994 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 899 | 1893 | 3988 | 8402 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 448 | 498 | 1049 | 2210 | 4656 | 9809 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 0 | 551 | 1161 | 2446 | 5153 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 5.1 | 10.7 | 22.6 | 47.7 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 4.6 | 5.1 | 10.7 | 22.6 | 47.7 | 100 |

## Pen-y-bont ar Ogwr





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 1013 | 1909 | 3597 | 6778 | 12773 | 12773 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 896 | 1688 | 3181 | 5995 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 600 | 649 | 1223 | 2305 | 4343 | 8183 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 49 | 574 | 1082 | 2038 | 3841 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 7.9 | 14.9 | 28.1 | 52.9 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 7.3 | 7.9 | 14.9 | 28.1 | 52.9 | 100 |

## Bro Morgannwg





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 1939 | 3123 | 5029 | 8100 | 13045 | 13045 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1184 | 1906 | 3070 | 4945 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 999 | 1277 | 2057 | 3312 | 5334 | 8591 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 278 | 780 | 1256 | 2022 | 3257 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 14.9 | 24.0 | 38.6 | 62.2 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 11.7 | 14.9 | 24.0 | 38.6 | 62.2 | 100 |

## Rhondda Cynon Taf





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 3202 | 5060 | 7997 | 12638 | 19973 | 19973 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 1858 | 2937 | 4641 | 7335 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 1352 | 1746 | 2759 | 4361 | 6891 | 10891 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 394 | 1013 | 1601 | 2531 | 4000 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 16.1 | 25.4 | 40.2 | 63.5 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 14.1 | 16.1 | 25.4 | 40.2 | 63.5 | 100 |

## Merthyr Tudful





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 735 | 1205 | 1977 | 3242 | 5317 | 5317 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 470 | 771 | 1265 | 2075 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 0 | 345 | 566 | 928 | 1522 | 2496 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 345 | 221 | 362 | 594 | 974 |





| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 13.8 | 22.6 | 37.1 | 60.9 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 13.8 | 22.6 | 37.1 | 60.9 | 100 |

## Caerdydd




| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 4975 | 7965 | 12752 | 20416 | 32687 | 32687 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - cynradd) | | 2990 | 4787 | 7664 | 12271 | 0 |
| Cyfanswm yn derbyn addysg uwchradd Cymraeg | 3029 | 3051 | 4885 | 7820 | 12521 | 20046 |
| Cynnydd ar y 5 mlynedd cynt (niferoedd - uwchradd) | | 22 | 1834 | 2936 | 4700 | 7525 |




| Blynyddoedd | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 15.2 | 24.3 | 39.0 | 62.4 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 15.1 | 15.2 | 24.3 | 39.0 | 62.4 | 100 |


## Sir Fôn

Mae Sir Fôn eisoes yn agos iawn at y nod. Gan nad oes wybodaeth ddigon manwl yn ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion ar gyfer ysgolion uwchradd, mae'n anodd cyfrifo unrhyw ganran cynnydd penodol. O'r hyn a wyddom am natur ieithyddol gyffredinol yr ynys, fodd bynnag, anodd credu pam na ellir gosod cynllun ar waith i droi ysgolion yr ynys yn rhai cyfrwng Cymraeg o fewn tua 10 mlynedd.

# Cyrraedd y nod bod 50% o blant mewn addysg Gymraeg


Mae'r Llywodraeth wedi gosod targed bod 50% o ddisgyblion Cymru yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050.
Mae'r graffiau isod yn dangos, fesul sir, faint o gynnydd sydd ei angen bob pum mlynedd er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae hanner disgyblion Cymru yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050.

## Conwy





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 22.9 | 27.9 | 33.9 | 41.2 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 9.5 | 22.9 | 27.9 | 33.9 | 41.2 | 50 |

## Sir Ddinbych





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 26.5 | 31.1 | 36.5 | 42.8 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 16.5 | 26.5 | 31.1 | 36.5 | 42.8 | 50 |

## Sir Fflint





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 6.7 | 11.1 | 18.3 | 30.4 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 6.0 | 6.7 | 11.1 | 18.3 | 30.4 | 50 |

## Wrecsam





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 12.8 | 18.0 | 25.4 | 35.8 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 12.8 | 12.8 | 18.0 | 25.4 | 35.8 | 50 |

## Powys





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 12.5 | 17.7 | 25.1 | 35.6 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 12.5 | 17.7 | 25.1 | 35.6 | 50 |

## Ceredigion





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 74.2 | 99 | 100 | 100 | 100 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 65.9 | 74.2 | 99 | 100 | 100 | 100 |

## Sir Benfro





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 16.8 | 22.1 | 29.0 | 38.2 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 5.0 | 16.8 | 22.1 | 29.0 | 38.2 | 50 |

## Sir Gâr





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 47.9 | 64.1 | 86 | 100 | 100 | 100 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 28.0 | 37.5 | 50.1 | 67.1 | 89.8 | 100 |

## Abertawe





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 14.4 | 19.7 | 26.9 | 36.8 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 13.8 | 14.4 | 19.7 | 26.9 | 36.8 | 50 |

## Castell-Nedd Port Talbot





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 17.3 | 22.6 | 29.6 | 38.6 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 17.3 | 22.6 | 29.6 | 38.6 | 50 |

## Caerffili





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 17.2 | 23.0 | 30.8 | 41.2 | 55 | 55 |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 16.0 | 17.2 | 23.0 | 30.8 | 41.2 | 55 |

## Blaenau Gwent





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 5.9 | 10.1 | 17.2 | 29.4 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 5.9 | 10.1 | 17.2 | 29.4 | 50 |

## Torfaen





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 11.0 | 16.1 | 23.5 | 34.4 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 12.9 | 13.0 | 18.2 | 25.6 | 35.9 | 50 |

## Sir Fynwy





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 6.1 | 10.3 | 17.5 | 29.6 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 6.1 | 10.3 | 17.5 | 29.6 | 50 |

## Casnewydd





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 5.1 | 9.0 | 16.0 | 28.3 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 4.6 | 5.1 | 9.0 | 16.0 | 28.3 | 50 |

## Pen-y-Bont ar Ogwr





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 7.9 | 12.6 | 19.9 | 31.7 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 7.3 | 7.9 | 12.6 | 19.9 | 31.7 | 50 |

## Bro Morgannwg





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 14.9 | 20.2 | 27.4 | 37.2 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 11.7 | 14.9 | 20.2 | 27.4 | 37.2 | 50 |

## Rhondda Cynon Taf





| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 16.1 | 21.4 | 28.4 | 37.8 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 14.1 | 16.1 | 21.4 | 28.4 | 37.8 | 50 |

**Merthyr Tudful**




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 13.8 | 19.1 | 26.4 | 36.5 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 0.0 | 13.8 | 19.1 | 26.4 | 36.5 | 50 |

**Caerdydd**




| | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 | 2045 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn derbyn addysg gynradd Gymraeg | 15.2 | 20.5 | 27.6 | 37.2 | 50 | |
| Canran yn derbyn addysg uwchradd Gymraeg | 15.1 | 15.2 | 20.5 | 27.6 | 37.2 | 50 |

## Môn a Gwynedd

Gyda chanrannau disgyblion y ddwy sir sy’n derbyn addysg Gymraeg yn rhagori eisoes ar 50 y cant, byddai gweithredu lluosydd cenedlaethol blynyddol o 6 y cant yn ddigon i godi’r ganran yn y ddwy sir i 100 y cant o fewn ychydig flynyddoedd.

Mae dros 90 y cant o blant ysgolion cynradd y ddwy sir eisoes yn cael eu haddysg drwy’r Gymraeg. Gyda’r un peth yn wir am dros 80 y cant o blant Blwyddyn 7-11 yn ysgolion uwchradd a chanol Gwynedd, gellid codi’r ganran i 100 y cant yn gyflym iawn.

Nid yw’r sefyllfa lawn mor eglur ynghylch ysgolion uwchradd Môn, er ei bod yn amlwg fod y gyfran sy’n derbyn eu haddysg drwy’r Gymraeg yn is na’r hyn yw mewn ysgolion cynradd. Gellir dyfalu’n weddol hyderus fodd bynnag y byddai gweithredu’r lluosydd cenedlaethol o 6 y cant yn gallu codi’r ganran i 100 y cant o fewn tua 10 mlynedd.

## Casgliadau

Mae'r ffigyrau'n dangos y byddai cyrraedd nod y Llywodraeth bod 50% o blant yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050 yn her oni bai bod cynllun clir ar gyfer cynnydd. Byddai sicrhau addysg Gymraeg i bob disgybl erbyn 2050 yn fwy o her, ond mae'r ffigyrau yn dangos bod hynny'n gwbl bosibl.

Gydag ewyllys gwleidyddol a chyllido digonol gallai Llywodraeth Cymru sicrhau addysg Gymraeg i bawb trwy'r Bil Addysg Gymraeg.

Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith
Ebrill 2024